Y Dinesydd

Chwefror 2014 Rhif 384 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

Anrhydedd i Anthony Packer
Conswl Anrhydeddus Lithwania

Ar yr 8fed o Ionawr eleni cyflwynwyd i Anthony Packer, Penarth, Conswl Anrhydeddus Lithwania er 2002, anrhydedd uchaf Gwasanaeth Diplomyddol Lithwania. Fe'i gwnaed yn Farchog o Urdd y Seren Lysgenhadol. Cyflwynwyd y fedal iddo yn Home Towers, Penarth, gan Lysgennad Lithwania ym Mhrydain, ac yng nghwmni cynrychiolaeth o'r Cynulliad Cenedlaethol.

Trist yw gorfod cyhoeddi i Anthony Packer farw ddydd Llun 20 Ionawr.

(Gwelir teyrnged gan Robin Gwyndaf ar dudalen 3.)

Dinas Powys a'r Cylch

Ym mis Rhagfyr cynhaliodd Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys ei noson elusennol flynyddol i godi arian at achos da yn ein hardal. Ein dewis o elusen oedd Bws / Ambiwlans y pentre, sy'n rhan o gynllun Gofal Gwirfoddol Dinas Powys. Mae'r bws yma ar ben hewl bob dydd o'r wythnos yn casglu rhai o henoed y pentre sy'n methu cerdded yn rhy dda. *(Parhad ar dud. 8.)*

Y Tregaroniaid

Ers tua deng mlynedd mae rhai o gyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Tregaron wedi bod yn cwrdd am ginio a sgwrs am hanner dydd ar y dydd Mawrth cynta o bob mis yn Y Mochyn Du. Cyril Hughes ddechreuodd yr arferiad ac ar y 3ydd o Ragfyr roedd yr hyna ymysg y criw ddaeth ynghyd yn 93 oed (E.D. Evans) a'r ienga yn 62 oed (Jackie James)! Mae Gareth Hughes, perchennog y Mochyn Du, yn un o'r 'Tregaroniaid'.

Cofiwch bod croeso twymgalon i unrhyw un fu yn yr ysgol arbennig honno yng Ngheredigion i ymuno gyda'r criw yn 2014.

Y Tregaroniaid yn eu cyfarfod yn y Mochyn Du ym mis Rhagfyr

Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
Bryan James

Golygydd y rhifyn nesaf:
Eirian a Gwilym Dafydd

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Mawrth erbyn 25 Chwefror i:
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
Ffôn: 029 20657108
e-bost: eirian.dafydd@ntlworld.com

MANYLION CYSYLLTU

Calendr y Dinesydd
Dr E Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

Hysbysebion
Bryan James
52 Highfields, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2QB
029 20566731
db.james@ntlworld.com

Dosbarthu copïau
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur,
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan
Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Gwasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Arienner yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

SIOP Y FELIN, Yr Eglwys Newydd
SIOP PRIFYSGOL CYMRU, 12 Stryd Fawr
CABAN, Pontcanna
DERI STORES, Rhiwbeina
VICTORIA FEARN GALLERY, Rhiwbeina
HALLS, Llandaf
HALCYON DAZE, Wellfield Road
SIOP LYFRAU WINDSOR, Penarth

Addysg Gymraeg – oedi eto!

Holwyd Michael Jones am ei ymateb i benderfyniad Cyngor Dinas Caerdydd nos Iau, 30 Ionawr i beidio bwrw 'mlaen ar unwaith â'r cynllun i agor ysgol Gymraeg newydd yn Grangetown.

Pan adawodd y cyn Brif Swyddog Addysg, Chris Jones, ei swydd, roedd polisi yn ei lle, wedi derbyn sêl bendith y Gweinidog, i agor ysgol yn Grangetown erbyn 2015. Fis Medi diwetha penderfynodd y Cyngor beidio â'i weithredu, gan addo cynllun newydd erbyn y Nadolig - ond ddaeth dim byd. Wedyn anfonodd y Cyng. Julia Magill (Llaf) neges i'r Fforwm Addysg Gymraeg yn addo cynllun ar gyfer Grangetown ac ardal Sblot, Adamsdown a Thremorfa erbyn diwedd 20 Ionawr – ond ddaeth hwn ddim chwaith.

Yn wyneb hyn daeth y Cyng. Neil MacEvoy (PC) â chynnig gerbron y Cabinet i geisio agor yr ysgol newydd yn Grangetown ar unwaith. Cynigiodd Julia Magill (Llaf) welliant yn nodi ymrwymiad parhaol y Cabinet i addysg Gymraeg a'r bwriad i gael cynllun ar gyfer 'darpariaeth newydd' ar gyfer Grangetown a Threbiwt – erbyn diwedd mis Mawrth!

Felly dyw'r ysgol Gymraeg i Grangetown **ddim** wedi cael ei gwrthod – ond ei gohirio. Ond paham yr holl oedi? Dyn a ŵyr. Bu'r Cyng. Huw Thomas (Llaf) yn dweud bod angen polisi hir dymor ar gyfer addysg Gymraeg. Mae hynny'n wir ond, yn anffodus, os na chawn ni ran o'r cynllun hwnnw ar unwaith, bydd nifer o blant bach yn colli'r cyfle i gael addysg Gymraeg o gwbl.



Teyrnged i Anthony Packer

Ganed Anthony Packer yn 1939, yng Nghaerllion, a'i fagu yn yr Hengoed, Cwm Rhymni. Addysgwyd yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Pengam, ac Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Y Barri. Yna cafodd yrfa academaidd ddisglair yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd (Hanes); Coleg Cuddesdon, Rhydychen (Diwinyddiaeth); y London School of Economics, (Gweinyddiaeth Gymdeithasol); a Phrifysgol Lerpwl (Gwaith Cymdeithasol Seiciatryddol).

Ar ddechrau ei yrfa bu yn nwyrain Llundain yn athro ysgol ac yn weithiwr cymdeithasol seiciatryddol mewn ysbytai. Wedi hynny bu'n Brif Weithredwr Cymdeithas Lles y Teulu yn Llundain ac yn Brif Hyfforddwr Cynghori Plant yng Nghlinig Tavistock. Yna, o 1975 hyd nes ymddeol yn 2002, bu'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd, am yr wyth mlynedd gyntaf yn yr Adran Addysg a'r Adran Gwaith Cymdeithasol, ac wedi hynny yn llawn amser yn yr Adran Addysg. Wedi dysgu'r Gymraeg ei hunan, bu ar flaen y gad yn hyrwyddo'r defnydd ohoni ym myd addysg a gwasanaethau cymdeithasol drwy Gymru gyfan. Trefnodd, er enghraifft, gynadleddau cenedlaethol ar gyfer staff awdurdodau lleol Cymru, ac am bum mlynedd bu'n Gadeirydd Cymdeithas Athrawon Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru. Sefydlodd gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd, a gwirfoddolodd i ddarlithio drwy gyfrwng y Gymraeg ei hunan. Bu am bedair blynedd yn gyd-olygydd *Cylchgrawn Addysg Cymru – The Welsh Journal of Education*, ac am ddwy flynedd yn Gadeirydd Adran Economeg a Chymdeithaseg Urdd y Graddedigion.

Yr un mor bwysig, gwnaeth gyfraniad amhrisiadwy yn hyrwyddo Cymru, ei hiaith a'i diwylliant, ar raddfa gydwladol. Datblygodd berthynas agosach rhwng Cymru a gwledydd bychain Ewrop, y gwledydd Baltig yn arbennig. Ef oedd un o brif sefydlwyr y Gymdeithas Faltig yng Nghymru yn 1991. Yr un flwyddyn, ac yn 1993, trefnodd ddirprwyaethau i Lithwania i gynorthwyo awdurdodau addysg a phrifysgolion y wlad i ymdopi â'r newid mawr yn sgîl ennill annibyniaeth. Yn 2000 bu'n gyfrifol am baratoi fersiwn Saesneg o hunangofiant Vytautas Landsbergis: *Lithuania: Independent Again*. Clasur o gyfrol.

O 1983 hyd 1992 yr oedd yn Drysorydd y Ford Gron Gydwladol er Hyrwyddo Ymgynghori. Bu hefyd yn un o Ymddiriedolwyr Canolfan Gymreig Materion Cydwladol (Y Deml Heddwch); yn Drysorydd ac Is-Gadeirydd Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig yng Nghymru, ac yn Gynrychiolydd Archesgob Catholig Caerdydd ar Fwrdd Ymgynghorol Fforwm y Tair Ffydd ym Mhrydain. Yn 2007 arweiniodd bererindod eithriadol o lwyddiannus i'r Aifft i hyrwyddo cyd-berthynas well rhwng Mwslemiaid a Christnogion Coptig sy'n cael eu camdrin, rhai ohonynt mewn carchar ar gam. Braint fawr i Eleri, fy mhriod, a minnau oedd cael gwahoddiad i ymuno â'r bererindod hon.

Diolchwn am oes o wasanaeth nodedig iawn gan Anthony, a dymunwn i'w deulu bob bendith yn eu profedigaeth.

Rôl Gudd Penarth yn Hanes Cymru

O'r chwith i'r dde:
Adrian Roper, Cadeirydd Cangen Penarth; Alun Ffred Jones AC; yr Athro Richard Wyn Jones; Dafydd Williams

Daeth cant o bobl i gyfarfod arbennig yng ngwesty'r Windsor Arms, Penarth, nos Fawrth, 7 Ionawr, i ddathlu 90fed pen-blwydd cyfarfod cyntaf Y Mudiad Cymreig, grŵp a arweiniodd at ffurfio Plaid Cymru – gan synnu'r gŵr gwadd, yr Athro Richard Wyn Jones, un o'r prif ysgolheigion cyfoes ym maes gwleidyddiaeth.

Cyfarfod cudd oedd y cyfarfod hanesyddol hwnnw a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 1924 yn 11, Bedwas Place, Penarth, sef tŷ yr hanesydd a'r ysgolhaig Cymreig, G. J. Williams a'i wraig Elizabeth. Ymhlith y rhai oedd yn bresennol roedd y darlithydd a'r dramodydd, Saunders Lewis, a'r hanesydd, Ambrose Bebb.

Cyfeiriodd yr Athro Richard Wyn Jones at bwysigrwydd cyfarfodydd y grŵp a'u dylanwad wrth ddatblygu cysylltiadau gyda chenedlaetholwyr yng ngogledd Cymru, a sefydlu Plaid Cymru yn swyddogol yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli y flwyddyn ddilynol. Eglurodd hefyd sut y daeth y polisïau a luniwyd gan y grŵp yn bolisïau i Blaid Cymru ei hun yn ei blynyddoedd cyntaf.

Trefnwyd y dathliad gan Gymdeithas Hanes Plaid Cymru a Changen Penarth o'r Blaid, ac fe'i cadeiriwyd gan Alun Ffred Jones, AC, sy'n ŵyr i'r Parchedig Ffred Jones, a ymunodd â'r Mudiad Cymreig ar ôl ei gyfarfod cyntaf.

Dafydd Williams

Colofn G.R.

Yn fy ngholofn haf diwethaf soniais i fy mod wedi ymweld ag Oriel Leverhulme ym Mhort Sunlight, y Wirral, hefo aelodau o Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina yn y gobaith o weld darlun *Salem* gan Curnow Vosper, yr arlunydd dyfrlliw o Ddyfnaint ond hefo cysylltiadau Cymreig gan fod ei wraig yn enedigol o dre Merthyr. Ond siom a gafwyd gan fod y llun ar fenthyg mewn arddangosfa ym Mangor ar y pryd. Holais yno am gymar y darlun *Salem*, sef *Diwrnod Marchnad*, ac er mawr syndod ces i wybod ei fod yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays!

Felly, ar ddechrau'r flwyddyn hon penderfynais drefnu i fynd i weld y darlun gwreiddiol yn yr Amgueddfa a bues i'n ffodus nid yn unig i weld y darlun hwn ond hefyd gweld ail ddarlun gwreiddiol o *Salem* a wnaeth yr arlunydd ar gais ei frawd-yng-nghyfraith Frank T James. Hefyd ces i weld darlun o'r enw *Y Gardoten Ddall* a dynodd yn Llydaw. Mae nifer sylweddol o ddarluniau Curnow Vosper ym meddiant yr Amgueddfa ac mae sôn am gynnal arddangosfa o'i waith. Bu farw yn Shaldon yn Nyfnaint yn 1942.

Tra'n ymhel â gwaith Curnow Vosper cofiais am waith yr arlunydd Cymreig o'r enw Christopher Williams gynt o Faesteg. Odd copi o'i ddarlun *Defroad Cymru* ar wal tŷ fy nain Jane Lewis odd yn byw yn Heol Caerffili yn Llwynbedw. Odd hi'n Gymraes i'r carn ac yn aelod selog o Blaid Cymru a phan on i'n blentyn ac yn ymweld â'm nain dwy'n cofio sylwi ar y darlun trawiadol hwn odd yn portreadu merch ifanc mewn gwisg wen a draig yn chwythu tân wrth ei thraed. Mae gwreiddiol y llun hwn ym meddiant Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon, mae'n debyg.

Dros wyliau'r Nadolig ces i fodd i fyw yn darllen pedwaredd gyfrol Dafydd Wigley o'r enw *'Be nesa,* a chyfrol Harri Parri o'r enw *O'r Un Brethyn,* sef wyth portread o bobl odd wedi ennyn ei sylw. Un o'r cymeriadau odd y Tad Dewi neu ei enw iawn Alun Idris Jones sy'n frawd iau i Huw Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C ac a fagwyd yn Llanrhymni. Bu'n aelod yn y Tabernacl yn yr Ais am gyfnod cyn troi at y Ffydd Babyddol a phenderfynu mynd yn fynach. Mae o'n drigain oed bellach ac yn byw yn Iwerddon ac yn fynach ac offeiriad mewn plwy yno. Ewch ati i ddarllen y ddwy gyfrol a dwy'n siwr na chewch chi mo'ch siomi!

Cynhadledd a Gŵyl Geltaidd

Caerdydd Awst 11-16, 2014

d/o **Y Gyngres Geltaidd Cangen Cymru**

preswyl a dibreswyl

Darlithwyr a pherfformwyr o'r gwledydd Celtaidd:

Alba, Breizh, Cymru, Éire, Kernow, Mannin

darlithoedd, ymweliadau, cymdeithasu,

cyngerdd ffurfiol, nosweithiau anffurfiol,

twmpath, dawnsio anffurfiol

Thema'r darlithoedd eleni:

'Treftadaeth Ddiwydiannol

y Gwledydd Celtaidd'

Cyfle i aelodau ac eraill roi help llaw a chymryd rhan

Manylion pellach: Nic ap Glyn, 90 Plassey St,

Penarth CF64 1EN

Ffôn: 029 2035 0088

niclas.apglyn@btinternet.com

CYMRODORION CAERDYDD

Sefydlwyd 1885

Gwleidyddiaeth

-

Celfyddyd yr Annhebygol

Cyflwyniad gan

Adam Price

Nos Wener 14 Mawrth 7.30 y.h.

Yn Festri Salem, Treganna

Croeso cynnes i bawb

Am wybodaeth bellach cysyllter â'r ysgrifennydd 029 20562880

Sôn am lyfrau .... ac ati

'Canu at Iws'

Dyna deitl rhyfedd ar yr olwg gyntaf, ond daw arwyddocâd y geiriau'n amlwg wrth ddarllen y gyfrol hynod ddiddorol hon gan Roy Saer, Llandaf – '*Canu at Iws' ac Ysgrifau Eraill*. Detholiad yw'r gyfrol ddwyieithog hon o ysgrifau ymchwil a seiliwyd ar waith Roy yn Amgueddfa Werin Cymru. (Gweler yr erthygl Dathlu yn Sain Ffagan.) Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Bu Roy yn aelod gweithgar o'r Gymdeithas ers blynyddoedd, ac erbyn hyn ef yw'r Llywydd.

(£10.95, siopau llyfrau, neu o www.gwales.com)

Awduron o Riwbeina

Yn rhifyn Rhagfyr/Ionawr o'r Dinesydd tynnwyd sylw at y nifer o awduron sy'n byw yn Rhiwbeina, gan enwi tri – Rhiannon Gregory, Ioan Kidd a Llwyd Owen. Ond mae 'na ragor!!

Diolch i un o'n darllenwyr am dynnu sylw at y ffaith bod Melfyn Hopkins (Heol Cae Rhys), hefyd, yn byw yno, ac yntau'n gyd-awdur y nofel *Y Groes Naidd* – cyd-awdur gyda Lyn Jones, Yr Eglwys Newydd. Cyhoeddwyd y nofel hon gan Wasg Gomer ychydig dros flwyddyn yn ôl – nofel antur am ddarlithydd Hanes ym Mhrifysgol Caerdydd o'r enw Dylan Jones yn chwilio am y Groes Naidd – un o greiriau pwysicaf y Cymry a ysbeiliwyd oddi ar gorff Llywelyn ein Llyw Olaf yng Nghilmeri yn 1282. Cyffrous iawn!

Meic Stephens

Yn rhifyn Rhagfyr/Ionawr, hefyd, cyfeiriwyd at salwch Meic Stevens y 'llenor', gan ddymuno adferiad llawn iddo. Bydd y craff wedi sylwi mai'r 'canwr' yw'r Meic gyda 'v', a chan ymddiheuro am y gwall, mae'n dda gyda ni gyhoeddi bod Meic Stephens y llenor o'r Eglwys Newydd yn fyw ac yn iach – ac mor gynhyrchiol ag erioed!

Mae e newydd gyhoeddi'r gyfrol *Rhys Davies, a Writer's Life* (Parthian: £20), sef hanes y llenor o Flaenclydach ger Tonypandy, ac mae e wrthi ar hyn o bryd yn paratoi cyfrol o gerddi o'r enw *Wilia*, a gyhoeddir gan Barddas ym mis Mehefin.

Fe Ddaw'r Byd i Ben

Dyna deitl drama newydd sbon gan yr awdur cyffrous o Gaerdydd, Dafydd James, a rhwng 11-15 Chwefror cawn gyfle i weld perfformiad ohoni yn Theatr y Sherman.

Ysgrifennodd Dafydd y ddrama'n benodol ar gyfer myfyrwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, a nhw fydd yn perfformio, yn cynllunio ac yn gyfrifol am ochr dechnegol y cynhyrchiad, fel rhan o'u cwrs. Bydd yr actorion ifanc yn perfformio ochr yn ochr â'r actorion profiadol Siw Hughes a John Norton. Yn cyfarwyddo bydd Cyfarwyddwr Cyswllt gwaith Cymraeg Sherman Cymru, Mared Swain.

(Diolch i Adam Jones, adran marchnata Sherman Cymru, am y wybodaeth.)

Llwyddiant actor ifanc o Gaerdydd

Yn ddiweddar mae'r actor ifanc 22 oed, Tom Rhys Harries o Bontcanna a chyn-ddisgybl yn Ysgol Plasmawr, wedi bod yn actio yn y ddrama *Mojo* gan Jez Butterworth yn Theatr Harold Pinter yn Leicester Square yn Llundain. Bu Tom yn astudio drama yn y Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd Dymunwn bob llwyddiant eto i Tom.

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar 20 Ionawr, daeth y Gymdeithas ynghyd i Festri Bethany i wrando ar y Bonwr Rhodri Williams, Cwnsler y Frenhines. Mae'n gallu hel ei achau yn ôl i'r ail ganrif ar bymtheg ac ymysg ei gyndadau mae Oliver Cromwell/Williams.

Mae Rhodri'n hanu o deulu amaethyddol yn Llanbrynmair, Powys. Oddi yno y daeth ei hen dad-cu, Y Parchedig D H Williams a anwyd ym 1865. Paratôdd i fynd i'r weinidogaeth gyda'r Annibynwyr a chafwyd gan Rhodri ei hanes ef a'i deulu wedi 1899 tra oedd ym Methesda'r Barri. Bu hefyd yn gweithredu ar Bwyllgor Addysg y Barri ac yn Gadeirydd y Coleg yno, yn fawr ei barch.

Noswyl Nadolig, codwyd £180 at elusen Ymchwil i Gancr y Pancreas. Trist oedd clywed am brofedigaethau dwy o'r aelodau: bu farw priod Margaret Jones a phriod Rhiannon Bell. Cydymdeimlwyd yn ddwys â'r ddwy.

Lona Roberts

Hybu'r Dinesydd

Rydym yn parhau i dderbyn rhoddion gan unigolion a chymdeithasau a sefydliadau tuag at y gost o gynnal ein papur bro. Y diweddaraf i gyfrannu yw Ann Saer a Gwilym Roberts, Capel Salem a'r Cymrodorion, a diolch iddynt am eu haelioni.

Bydd blwyddyn newydd yn ein hanes yn dechrau ym mis Ebrill – cam cyntaf y 50 nesaf!! **Beth am i ni i gyd drio cael un neu ddau o'n ffrindiau neu gymdogion i danysgrifio i dderbyn y Dinesydd am flwyddyn? Bydd ffurflenni tanysgrifio yn rhifyn mis Mawrth. Cynyddu nifer ein darllenwyr yw un o amodau derbyn grant Llywodraeth Cymru – felly mae gwir angen eich cymorth. Diolch.**

www.mentercaerdydd.org
029 20689 888

menter caerdydd

Dathlu Santes Dwynwen

Diolch o 'galon' i'r Park Plaza am gyfrannu gwobr gwerth ei hennill ar gyfer ein cystadleuaeth Santes Dwynwen eleni – llongyfarchiadau hefyd i Rhys a Nerys Evans, enillwyr y gystadleuaeth. Dwi'n siwr eu bod nhw wedi cael noson wrth eu boddau yn y gwesty moethus yng nghanol y ddinas!

Penwythnos Teulu yn Llangrannog

Beth am gofrestru lle ar ein penwythnos teulu poblogaidd yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog yn ystod gwyliau Pasg 2014; dydd Gwener, Ebrill 11 – dydd Sul, Ebrill 13? Penwythnos llawn hwyl a sbri, gyda llu o weithgareddau yn cynnwys nofio, merlota, cwrs rhaffau, gwibgartio, sgio, trip i'r traeth, twmpath, cwis a llawer mwy. Pris yn cynnwys llety, ensuite, y bwyd a'r holl weithgareddau. Am fanylion llawn ewch i wefan y Fenter – neu ebostiwch leanne@mentercaerdydd.org

Ras 10k Caerdydd a Bws Caerdydd

Mae Menter Caerdydd wedi bod yn cael cyfarfodydd gyda chriw Sefydliad Aren Cymru, trefnwyr ras 10k Caerdydd ar ddechrau'r flwyddyn gyda'r bwriad o godi proffil y Gymraeg yn y ras boblogaidd sy'n digwydd eleni ar Fedi'r 7fed. Beth am drefnu tîm o ffrindiau, neu dîm o'r gwaith i gystadlu? I gofrestru, neu am fwy o wybdodaeth, ewch i wefan y ras, http://cardiff10k.com/ neu cysylltwch am ffurflen gofrestru Gymraeg.

Yn ogystal â ras 10k Caerdydd, rydym hefyd wedi bod mewn trafodaethau gyda chwmni Bws Caerdydd am y defnydd o'r Gymraeg o fewn y cwmni a'r rhwydwaith o fysiau o amgylch y ddinas. Oeddech chi'n gwybod bod 15 o yrrwyr bws y cwmni yn siarad Cymraeg? Mae Bws Caerdydd yn awyddus i wella'r berthynas gyda siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r iaith.

Hanner Tymor Chwefror

Bydd llond y lle o glybiau a gweithgareddau i blant yn ystod hanner tymor Chwefror – bydd 2 Gynllun Gofal a sesiynau chwarae agored yn digwydd yn ddyddiol a bydd nifer o weithdai i blant o bob oed gan gynnwys dringo, merlota a diwrnodau chwaraeon – ewch i wefan y Fenter am fwy o wybodaeth – www.mentercaerdydd.org

Cwis y Mochyn Du

Bydd cwis Nadolig y Fenter yn cael ei gynnal nos Sul, Chwefror 23 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb! Cofiwch bod y cwis ar nos Sul olaf pob mis.

Tafwyl

Wedi llwyddiant ysgubol Tafwyl y llynedd, mae dyfodol yr Ŵyl wedi'i sicrhau eto eleni. Bydd Gŵyl Gymraeg Caerdydd yn cael ei chynnal eleni gyda mwy o weithgareddau a llwyfannau, yn ogystal â chefnogaeth gan noddwyr newydd.

Bydd lansiad swyddogol Tafwyl 2014 yn cael ei gynnal fel rhan o ddathliadau Gŵyl Ddewi Canolfan Mileniwm Cymru ar Fawrth y 1af. Yn ogystal ag eitemau cerddorol gan Côr Plant Caerdydd a Greta Isaac, bydd John Griffiths AC a'r Cynghorydd Huw Thomas yn annerch. Mae croeso i bawb ymuno â ni am 11am yn y Lanfa, Canolfan Mileniwm Cymru.

Croesawu aelodau newydd i'r Pwyllgor Rheoli

Hoffai Menter Caerdydd gyhoeddi ein bod wedi apwyntio nifer o aelodau newydd I'r Pwyllgor Rheoli. Croeso mawr i Ceren Roberts, Mari Phillips, Ashok Ahir, Rhys Lloyd, Irfon Bennett, Non Tudur Boore, Rachel Dwyer, Spencer Jones, Huw Onllwyn Jones, Heledd Williams, Guto Brychan a Mali Thomas. Mae'r aelodau newydd yn cynrychioli nifer o ardaloedd a sefydliadu ac yn dod ag arbenigedd gwerthfawr wrth ddarpau gwasanaeth cynhwysfawr a safonol. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i gydweithio â nhw.

Cynhadledd Cyngor Caerdydd - Caerdydd Ddwyieithog

Mae'r Fenter yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor i gydlynu cynhadledd 'Caerdydd Ddwyieithog' ym mis Mawrth.

Diben y digwyddiad hwn yw ymgynghori'n helaeth â phobl a sefydliadau er mwyn cynhyrchu cynllun gweithredu gyda'r nod o warchod a meithrin yr iaith yng Nghaerdydd.

Bydd y Prif Weinidog Carwyn Jones yn agor y gynhadledd yn Neuadd y Ddinas ar 6 Mawrth, a bydd siaradwyr gwadd yn cynnwys comisiynydd y Gymraeg ac Adran y Gymraeg Prifysgol Caerdydd. Mynediad trwy wahoddiad – felly os daw cyfle ...!

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng ngyfarfod cyntaf 2014 (Ionawr 20fed) cawsom gwmni Wil Roberts yn traethu ar Astudiaethau Acwsteg Cerddoriaeth.

Bu Wil yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Twm o'r Nant, Dinbych ac Ysgol Uwchradd Glanelwy, Llanelwy. Cyn mynd ymlaen i brifysgol treuliodd flwyddyn o hoe addysgol yn Llundain yn cynnwys tri mis o hyfforddiant ar daro/canu drymiau. Yng Nghaerdydd dilynodd gwrs yn yr Adran Ffiseg a Seryddiaeth ac ennill gradd; yno y mae ar hyn o bryd yn nhrydedd flwyddyn ei waith ymchwil a'i olwg ar radd Ph.D.

Yn benodol clywsom am astudiaethau yn ymwneud â'r gitâr clasurol, gan nodi sut y mae nodweddion amrywiol corff yr offeryn yn dylanwadu ar y seiniau a gynhyrchir. Pwrpas gwaith yr ymchwil yw ceisio helpu gwneuthurwyr i wneud dewisiadau gwybodus wrth ddylunio offeryn er mwyn cael gwell rheolaeth dros y sain.

Pan fydd llinyn gitâr yn cael ei blycio nid un nodyn pur a glywir ond sain cymysg, oherwydd, er bod un amledd (traw) yn amlwg, bydd cydrannau eraill yr offeryn yn dirgrynu ac yn creu eu seiniau eu hunain. Yr hyn a glywir gan y glust yw sain a ffurfir gan y nodyn sylfaenol ynghyd â seiniau eraill (uwchdonnau). Yr uwchdonnau sy'n rhoi 'ansawdd' ac yn fodd gwahaniaethu rhwng offerynnau gwahanol sy'n canu'r un nodyn sylfaenol.

Gan mai arwynebedd bychan sy gan dannau gitâr ychydig o aer a symudir a felly gwan yw'r effaith ar glustiau gwrandawyr. Rhaid wrth seinfwrdd o rywfath sy, oherwydd ei faintioli mwy, yn peri mwy o symudiad aer ac effaith ar glust. Er na ellir gweld dirgryniadau seinfwrdd gyda llygaid noeth, mae modd, trwy offer electronig, amlygu ar sgrîn ymateb y seinfwrdd i ddirgryniad y tant. Rhyfedd o brofiad yw gweld plygiadau corff sydd i'r llygad noeth yn gwbwl gadarn. O astudio hyn gellir nabod patrymau symudiad cymhleth a rheolaidd y seinfwrdd a dod i ddealltwriaeth a all fod yn sail dros awgrym ynghylch newid siâp a deunydd. Yn rhan o'r ddealltwriaeth hon y mae canfod nodweddion sy'n arwain at 'nodyn blaidd', sef, un nad yw yn bodloni'r glust.

Yn ein cyfarfod nesaf (Chwefror 17) byddwn yn cael ein tywys ar lwybrau gwyddoniaeth chwaraeon.

Dr Neville Evans

Cylch Cinio

Ydy'ch bys ar y botwm?

Dyna un o'r cwestiynau oedd gan Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, i aelodau'r Cylch Cinio yn eu cyfarfod ar Ionawr 6ed. Yn gynharach yr un diwrnod dechreuwyd ar y broses o greu safonau statudol yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau mawr. Gobeithir gosod y safonau ar lawr y Cynulliad erbyn mis Tachwedd a disgwylir i'r Cyrff Cyhoeddus gydymffurfio. Os na wneir hynny, mae posibilrwydd y gallant wynebu cosb ariannol.

Prif rôl y Comisiynydd laith yw sicrhau defnydd o'r Gymraeg, bod yr iaith yn weladwy a chlywadwy, yn rhan o'r broses ddeddfu fydd yn adlewyrchu Cymru fel gwlad ddwyieithog. Wrth wneud hyn mae'r Comisiynydd yn ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau. Ni ddylai'r Gymraeg fod yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru a dylai pobl Cymru, sy'n dymuno hynny, allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyhead y Comisiynydd yw gweld y Gymraeg yn rhan o bolisi yng Nghymru; bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu, bod defnyddwyr y Gymraeg yn cael profiadau gwell yn sgil rheoleiddio; bod unigolion yn cael cyfiawnder mewn perthynas â'r iaith, ac arloesi wrth hybu a hwyluso isadeiledd y Gymraeg.

Meri Huws ac Alun Reynolds, Llywydd y Cylch

Mae'n wir bwysig bod y Gymraeg nid yn unig yn weladwy ar arwyddion mewn siopau mawr ond hefyd yn glywadwy. Mae'n hynod bwysig felly bod Cymry Cymraeg yn gwneud defnydd helaeth o'r cyfleusterau sydd ar gael. Rhoi eu bys ar y botwm iawn (h.y. 'Cymraeg' ar sgrin til hunanwasanaeth). Mae'n dasg anodd i feithrin hyder y Cymry Cymraeg, nid i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r iaith ond i *ddisgwyl* y gwasanaeth.

Tony Couch

Dathlu yn Sain Ffagan

Trigain a phump o flynyddoedd yn ôl, yn 1948, sefydlwyd Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Daethpwyd â phob math o wrthrychau ynghyd yno, a dechreuwyd codi enghreifftiau o adeiladau o bob rhan o'r wlad. Ond sylweddolwyd yn fuan y byddai'r gwrthrychau a'r adeiladau yn fud ac yn ddienaid heb grynhoi gwybodaeth am fywyd beunyddiol ac arferion y bobl a fu'n byw yn yr adeiladau ac yn defnyddio'r offer. O'r herwydd dechreuwyd casglu tystiolaeth lafar a chreu archif sain, ac arweiniodd hynny at sefydlu Adran Traddodiadau Llafar a Thafodieithoedd yn yr Amgueddfa, dan arweiniad Mr Vincent H. Phillips, union hanner can mlynedd yn ôl, yn 1963.

Yn briodol iawn, trefnodd Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin Cyn-Fyfyrwyr Prifysgol Cymru gyfarfod arbennig yn Sain Fagan ar 2 Tachwedd 2013, i ddathlu'r 50 mlwyddiant hwnnw, ac yn benodol i ddathlu cyfraniad aruthrol dau o aelodau staff Sain Ffagan i fyd traddodiadau gwerin yng Nghymru a'r tu hwnt dros yr 50 mlynedd diwethaf, sef D. Roy Saer a Robin Gwyndaf. Bu'r ddau yn aelodau o'r Adran Traddodiadau Llafar o'r dechrau, bron, gyda Roy yn canolbwyntio'n bennaf ar gasglu caneuon a cherddoriaeth werin a Robin ar gasglu llên a chwedlau gwerin. Rhyngddynt casglwyd pentwr enfawr o ddeunyddiau i'r archif yn Sain Ffagan. Bu'r ddau hefyd yn ddiwyd yn dehongli'r deunyddiau hynny dros y blynyddoedd, mewn darlith ac ysgrif ac ar y cyfryngau.

Daeth cynulleidfa luosog ynghyd ar 2 Tachwedd ar gyfer yr achlysur, a hynny'n arwydd o'r parch mawr sydd i gyfraniad Roy a Robin. Tradoddodd y ddau sgyrsiau hynod gofiadwy. Cawsom ganddynt amlinelliad o'u canllawiau wrth fynd ati i gasglu a dehongli, ac enghreifftiau o rai o'r eitemau a gasglwyd ganddynt, a chafwyd hefyd adrodd ambell dro trwstan a ddaeth i'w rhan ar eu teithiau casglu. Da dweud fod yr Amgueddfa Werin wedi recordio'r achlysur hapus a hanesyddol hwn ar gyfer ei harchif sain – recordiad a fydd yn werthfawr dros ben i'r rheini a fydd, maes o law, yn ymchwilio i hanes y casglu a'r diogelu ar draddodiadau gwerin Cymru y bu gan Roy a Robin ran mor bwysig ynddo.

Dinas Powys a'r Cylch.

(*Parhad o dud. 1.)* Aiff â nhw i siopa, neu i glybiau prynhawn neu'r clwb cinio neu i'r eglwys, a heb os mae'n fodd i fyw i nifer fawr o'n henoed.

Mae'r gwirfoddolwyr sydd ar y *rota* gyrru yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd y bws/ambiwlans. Mae arno le i'r fframiau Zimmer ac i gadair olwyn a lifft yn y gwt i'r rheiny sydd ddim yn gallu defnyddio'r step. Y drafferth yw fod eisiau tipyn o arian i gadw'r cyfan mewn trefn. Roedd Neuadd y Pentre dan ei sang ar y 6ed o Ragfyr a chawsom gwmni'r grŵp clasurol dawnus Fortza. Roedd ei ddewis o raglen yn wych - yn ddwyieithog ac yn Nadoligaidd ac fe grëwyd awyrgylch arbennig iawn. Fe arweiniodd y grŵp y gynulleidfa niferus i ganu carolau ac fe godwyd y to gyda phedwar llais yn plethu fel côr anffurfiol.

Y newydd gorau yw i ni gasglu £2,565, ac ar ôl ein hoedfa Nadolig flynyddol yn Eglwys Sant Pedr, yng nghwmni Archesgob Cymru y Gwir Barchedig Dr. Barry Morgan, trosglwyddwyd y siec i ddwylo John Fanshaw, Cadeirydd Gofal Gwirfoddol Dinas Powys. Diolchodd Gill Lloyd ein Cadeirydd eleni i bawb am eu cefnogaeth hael.

Iris Cobbe

Cymrodorion Caerdydd

Ieuan Jones, Cyfarwyddwr Cerdd ac Organydd Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd cyfarfod olaf 2013 o'r Cymrodorion yn Eglwys Dewi Sant nos Wener 6ed o Ragfyr. Trefnwyd cyflwyniad cerddorol gan Mr Royston Havard, ond yn anffodus, oherwydd iddo ddioddef anaf, nid oedd yn medru dod atom. Bu organydd a chôr-feistr yr eglwys, Mr Ieuan Jones, mor garedig â llenwi'r bwlch ar fyr rybudd.

Cyflwynodd raglen o gerddoriaeth y Nadolig a gyfansoddwyd ar gyfer yr organ. Cawsom wledd o gerddoriaeth glasurol a chyfoes ar yr organ odidog (un o offerynnau yr enwog Tad Willis) a berfformiwyd gan organydd ifanc medrus dros ben.

Diolchwyd iddo gan y Llywydd, Rhiannon Gregory. Diolchodd hefyd i Delyth Davies, Beti Davies ac Eryl Fuge am lanhau olion llafur adeiladwyr oedd yn gweithio ar yr adeilad cyn y cyfarfod.

Gwynn Matthews

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Bernard Jones o Landaf a fu farw ar 4 Rhagfyr. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn yr Eglwys Gadeiriol ar 27 Rhagfyr. Rhoddodd Bernard oes o wasanaeth i'r byd addysg yng Nghymru.

Llongyfarchiadau mawr i Bethan Gray, y cynllunydd celfi, ar ennill y teitl Cynllunydd Prydeinig Gorau 2013 yn yr Elle Decoration Awards yn ddiweddar. Mae Bethan yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf ac mae wedi sefydlu ei chwmni cynllunio celfi ei hunan yn Llundain yn 2008.

GARWYN DAVIES

Ganed Garwyn yn Hackney, Llundain, ond ni fu erioed yn un o Gymry Llundain gan i ryferthwy'r Ail Ryfel Byd ei yrru ef a'i fam yn ôl i ddiogelwch Cwmystwyth lle'i magwyd yng nghymdogaeth glòs y pentref hwnnw. Roedd ganddo bum chwaer ac un brawd.

Cafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Tregaron a ffurfiodd gyfeillgarwch yno a barodd hyd y diwedd; arwydd o hynny oedd ei hoffter o fynychu'r Mochyn Du yn fisol i gael clonc gyda hen ddisgyblion a oedd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Ef oedd Cadeirydd Pwyllgor Aduniadau y disgyblion a gychwynnodd eu haddysg yn yr ysgol honno yn 1951 a chafwyd pump aduniad llwyddiannus rhwng 1997 a 2011.

Chwaraeon oedd un o'i brif ddiddordebau ac roedd mynychu unrhyw gêm yn rhoi pleser di-bendraw iddo. Cefnogodd dîm rygbi Caerdydd yn selog. Yn athro ysgol yn Severn Road a Birchgrove, bu'n hyfforddi timau rygbi, pêl-droed, a phêl-fas hyd yn oed, yn ogystal â threfnu cystadlaethau rhwng ysgolion cynradd.

Er yn Gymro Cymraeg pybyr, dysgu mewn ysgolion Saesneg eu hiaith a wnaeth Garwyn ond manteisiai ar bob cyfle i hybu'r Gymraeg a bu'n cynnal dosbarthiadau nos i ddysgwyr am flynyddoedd lawer. Cynhaliodd adrannau'r Urdd yn yr ysgolion lle y dysgodd gan fynd â'r plant i Langrannog yn rheolaidd er mwyn iddynt hwythau hefyd brofi ychydig o rin Ceredigion.

Cyfarfu â Non, athrawes yn Ysgol Bryntaf ar y pryd ond a'i gwreiddiau yn Sir Gâr, a phriododd y ddau yn 1970. Ymgartrefon ym Mhenarth a chawsant ddau o blant, Ceri ac Angharad. Roedd ganddo ddau o wyrion cariadus, Elian a Soffia, ac roedd eu hanwyldeb a'u direidi di-baid yn gymorth mawr iddo ef a'r teulu yn ystod ei afiechyd.

Fel y gweddai i Gristion ymroddedig, roedd y capel yn bwysig eithriadol iddo a mynychodd Eglwys y Crwys ar hyd ei amser yng Nghaerdydd. Roedd y sefydliad, a'i weithgareddau amrywiol, yn gonglfaen i'w fywyd gan ddarparu nid yn unig sicrwydd ffydd, ond cyfeillgarwch a chwmniaeth yn ogystal. Bu'n athro Ysgol Sul am ddeugain mlynedd ac yn 1984 fe'i gwnaethpwyd yn flaenor a gwasanaethodd yr Eglwys yn ddiflino ym mhob agwedd. Yn 1989, ac ar y cyd gyda Mrs Ros Williams, cychwynnodd gangen *Operation Friendship* yn y Crwys; mudiad byd-eang sydd yn rhoi cyfle i ieuenctid o wahanol wledydd gyfnewid a chreu cyfeillgarwch.

Roedd o bersonoliaeth dawel, diymhongar a welai'r rhinweddau gorau mewn person, yn ffrind da i bawb ac mi fydd bwlch mawr ar ei ôl mewn sawl cymdeithas, yn Eglwys y Crwys, ac yn golled enfawr i'w deulu. Cysegrodd amser lawer i Urdd Gobaith Cymru ac mae arwyddair y mudiad yn fynegiant cryno ac addas o fywyd a chymeriad Garwyn: ffyddlon i Gymru, i gyd-ddyn ac i Grist.

BETI WYN

Bu farw Mrs Elizabeth Wynne Jones (Beti Wyn) nos Sul y 5ed o Ionawr. Roedd wedi bod yn wael am rai blynyddoedd yng nghartref gofal Duffryn Ffrwd, Nantgarw, lle bu'n byw am dair blynedd ar ôl symud o 'Cartref' yn Llanishen.

Cafodd ei magu yn Sir Fôn ar Iannau'r Fenai. Mi briododd â Richard Jones o'r Rhyl yn ystod y rhyfel yn 1943, ac yno buon nhw'n byw am ychydig cyn dwad i lawr i Gaerdydd yn 1952. Gwnaeth lawer o waith gwirfoddol i'r elusen Mental Health, ac roedd hi wastad yn brysur ac yn frwdfrydig dros bob peth Cymraeg. Roedd hi hefyd yn gerddor amryddawn a bu'n brysur hefo nifer o gorau plant ac oedolion – y mwyaf adnabyddus oedd y Meillon, lle cafodd Heather Jones ei dechreuad.

Cynhalwyd y gwasanaeth yn Eglwys y Crwys, ddydd Gwener 17eg o Ionawr ac wedyn yn Amlosgfa Thornhill. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r meibion, Stephen ac Eryl.

Llongyfarchiadau i:

Owen a Carolina Jones, Parc Fictoria, ar enedigaeth **Iolo Lucas** ar 12 Ionawr. Ŵyr cyntaf Huw ac Heulwen Jones, Radur;

Gareth a Veronica Kiff, Penylan, ar enedigaeth **Seren Ariana** yn Ysbyty'r Brifysgol ar 22 Ionawr. Chwaer fach i Manon Soffia;

Thora Price, 5 oed, o Ysgol Gymraeg Glan Morfa, ar ennill cystadleuaeth tynnu llun gan y Gymdeithas Ddeintyddol. Ymddangosodd ei llun yn y Cylchgrawn Deintyddol Prydeinig. Yn sgil ei gwobr bydd yr ysgol yn derbyn gwerth £200 o lyfrau.

Merched y Wawr - Bro Radur

Cinio a Chyngerdd

Ddechrau mis Rhagfyr aeth aelodau'r gangen unwaith yn rhagor i Fae Caerdydd i ddathlu'r Nadolig. Yn dilyn pryd o fwyd eithriadol o flasus ym mwyty *Ffresh,* ymlaen i Neuadd Alun Hoddinott i wrando ar gyngerdd gan Gerddorfa Gymreig y BBC dan arweiniad Carlos Kalmar. Roedd y cyngerdd yn cael ei ddarlledu yn fyw ar Radio 3 a'r cyflwynwyr ar y radio yn rhoi cefndir y darnau oedd ddim mor adnabyddus i ni.

Noson Garolau'r Rhanbarth

Nos Fawrth, Rhagfyr 9fed teithiodd nifer o'r aelodau [a rhai o ganghennau eraill hefyd] ar y bws i'r Fenni i Noson Garolau Rhanbarth y De-Ddwyrain. Roedd Cangen Y Fenni wedi trefnu'n hyfryd ar ein cyfer a'r Capel Methodistiaid ar Stryd y Castell yn leoliad hwylus ac hardd iawn. Roedd cyfraniadau arbennig gan Glwb Gwawr Caerdydd a Chlwb Gwawr Y Fenni.

Y Cylch Darllen

Mae yna griw o tua 15, o dan arweiniad Eirlys Davies, yn cwrdd yn Llyfrgell y Dre amser cinio ar y trydydd dydd Mawrth bob mis. Diolch yn fawr iddi hi am ei gwaith ac i Carol yn y llyfrgell am ei chymorth parod bob amser.

Rhwng Medi a diwedd Ionawr cawsom drafodaeth fywiog ar sawl cyfrol yn amryio o *Paris*, nofel swmpus William Owen Roberts, i *Llwch yn yr Haul* gan Marlyn Samuel, nofel llawn hiwmor a ffresni, a'r 'tonic o nofel', *Dal i Fynd,* gan Sioned Wiliam. Cawsom flas arbennig ar drafod *Aderyn Brith,* nofel gyntaf 'ein hawdur ni', Rhiannon Gregory.

Y Clwb Cerdded

Ar y pedwerydd dydd Mercher bob mis, mae Carys Tudor Williams yn trefnu taith gerdded ddiddorol yn y cyffiniau – sy'n diweddu bob tro â phryd o fwyd blasus. Taith o Ganolfan y Mileniwm, heibio'r Senedd a'r Eglwys Norwyaidd gan ddilyn y llwybr i gyfeiriad Penarth oedd hi ym mis Tachwedd, ac ar ddiwedd y daith roedd yn braf cael ymlacio gyda phryd yn y Mimosa. Edrych ymlaen nawr at deithiau 2014.

Meri Griffiths

Merched y Wawr - Caerdydd

Cawsom noson hwyliog iawn ym mis Rhagfyr pan ddaeth Huw Ffash a thîm gweddnewid *Prynhawn Da* a *Heno* i ymweld â ni. Y wraig ddewr a gafodd y gweddnewidiad oedd Lona Roberts. Mae Lona wastad yn edrych yn smart ac yn hardd, felly fe benderfynodd Huw ei gwisgo 'i lawr' yn hytrach na 'lan'. Yn y llun gwelwch Lona, ar y dde, ar ei newydd wedd. Cytunodd pawb ei bod yn edrych yn wahanol, ond nid o angenrheidrwydd yn well!

Gyda Lona yn y llun mae Huw Ffash, Patricia Lloyd Evans a wnaeth y coluro, a Dafydd Rees fu'n gyfrifol am y gwallt.

Fe ddangosir uchafbwyntiau'r noson naill ai ar *Prynhawn Da* neu *Heno* yn ystod mis Chwefror.

Rosina Davies

Y Dr Eurwyn Wiliam ddaeth i'n hannerch ym mis Ionawr. A ninnau ers sawl blwyddyn bellach ynghanol dirwasgiad a diweithdra, clywsom ganddo am enbydrwydd y 20au yng Nghymru, yn benodol ym Mrynmawr, lle'r oedd 80% o'r dynion yn ddi-waith.

Daeth grŵp o Grynwyr i Frynmawr a sefydlu Gwaith y Gwalia, oedd yn gwneud a chywiro esgidiau. Nhw hefyd oedd y tu ôl i'r ffatri gwneud celfi a barodd o 1929 hyd 1940. Mae gan Eurwyn a Mary, ei briod, lyfr diddorol ar y fenter fawr honno. Dangosodd luniau o'r gwahanol gelfi a werthwyd yn Siop David Morgan yma yng Nghaerdydd ac yn siopau Llundain. Y ffatri honno ddodrefnodd Neuadd Aberdâr ym Mharc Cathays, ac roedd nifer o'u celfi ym meddiant y Chwiorydd Davies yng Ngregynog. Nhw hefyd luniodd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1938 a ddaeth yn eiddo i'r Prifardd Gwilym R Jones.

Cawsom wybod am allu'r Crynwyr i farchnata a chodi arian. Roedd eu brwdfrydedd ar adeg mor druenus yn ein hanes ni fel cenedl yn achubiaeth i sawl teulu.

Lona Roberts

Croeso i Ann Williams sydd wedi symud o'r Wyddgrug i fyw ar lan Afon Taf. Mae Ann wedi ymdaflu i amrywiol weithgareddau a chymdeithasau yn ystod y tri mis diwetha ac yn cartrefu'n dda iawn.

Croeso nôl i Gaerdydd o'r Wladfa i Sandra De Pol, enillydd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Llanelli 2000, a Rhisiart Arwel ar ôl blwyddyn yn dysgu Cymraeg a hybu'r iaith yn Nyffryn Camwy ym Mhatagonia.

Newyddion o'r Eglwysi

Salem Treganna

Bedydd

Bedyddiwyd Deio, mab Angharad a Dylan, ddydd Sul 19 Ionawr. Pob dymuniad da.

Grŵp Canu

Mae ymarferion y grŵp canu wedi ailddechrau o dan arweinyddiaeth Geraint Cynan.

Y Clwb Llyfrau

Trafodwyd *Gwreiddyn Chwerw* gan Jerry Hunter.

Clwb Brecwast

Mae criw mawr a bywiog wedi bod yn mynychu'r clwb brecwast yn ystod y mis - dechrau addawol i'r flwyddyn. Croeso i rieni a babanod o dan oed meithrin i ymuno â ni am yn ail fore Mercher am 9.45.

Clwb y Bobl Ifanc

Daeth criw da o bob oed at ei gilydd nos Wener 24 Ionawr i weld dvd a joio sglods, gyda phawb yn edrych mlaen at raglen y flwyddyn newydd a chynllunio'r cwrs preswyl nesaf!

Adran yr Urdd

Mae'r adran wedi bod yn cwrdd i ddysgu darnau ar gyfer yr eisteddfod. Mae'r adran yn cwrdd bob nos Iau y tymor 6 i 7.

Tabernacl

Oedfaon, digwyddiadau mis Rhagfyr

Gwerthfawrogwyd amrywiaeth o weithgareddau yn ystod mis Rhagfyr a diolchwn i bawb a gyfrannodd i'w llwyddiant. Bu'r oedfa naw llith a charol yn arbennig gyda nifer o bobl ifanc a chyfeillion yr eglwys yn cyfrannu iddi ac felly hefyd oedfa bore dydd y Nadolig. Gwasanaeth hyfryd arall oedd oedfa'r ifanc wrth iddynt blethu stori'r Nadolig gyda dathliad 200 mlwyddiant yr eglwys.

Yn ystod y cyfnod hwn recordiwyd oedfa o fawl, gyda chynrychiolaeth o blith corau Caerdydd. Robert Nicholls oedd yn arwain a Marc Jon Williams wrth yr organ. Darlledwyd yr oedfa i raglen *Caniadaeth y Cysegr*.

Bu'n ddyhead gan lawer i gynnal noson o ganu carolau yng nghwmni'r cyfeillion sy'n defnyddio adeilad yr eglwys. Yn eu plith roedd Côr Meibion Taf, y Street Pastors, y Ddrama Nadolig a'r Eglwys ei hun. Mudiad 'Missing Persons' oedd wedi gofyn am gyfle i fod yn rhan o oedfa yng Nghaerdydd, a hynny er mwyn tynnu sylw at eu hachos.

Croesawu plentyn i'r aelwyd

Rhannwn lawenydd Geran ac Angie Hughes wrth iddynt fabwysiadu eu hail blentyn ddiwedd 2013. Enwyd y ferch fach yn Nia Haf Enid.

Pwyllgor Organ a Digwyddiadau

Ar Ionawr 25 cawsom ddatganiad gwych ar yr organ gan Robert Court. Roedd yr amrywiaeth yn ei raglen wedi dangos yr organ ar ei orau.

Trefnwyd datganiadau pellach ar yr organ ar y dyddiau canlynol (i gyd am 12.30) a byddai'n dda cael cefnogaeth yr aelodau a chyfeillion yr eglwys. 1 Mawrth - Iestyn Evans, Llundain (di-dâl); 26 Ebrill - Jane Watts (£5);
28 Mehefin - Terence Gilmore-James, Pont-hir (di-dâl).

Bore Coffi

Diolch i Ron a Glenys Lindsay am eu croeso hyfryd ym mis Rhagfyr. Roedd yr un croeso yn ein haros yng nghartref Jean Evans yn Nhongwynlais ganol Ionawr.

Eglwys y Crwys

Cydymdeimlo

Daeth bwlch arall i rengoedd Eglwys y Crwys gyda marwolaeth Mr. Aled Evans, aelod a blaenor ffyddlon; cyn-Drysorydd yr Eglwys; aelod gweithgar o'r Gymdeithas Ddrama a chynddylunydd cylchgrawn *Y Gadwyn*. Aled hefyd fu'n trefnu'r teithiau niferus ledled Ewrop am sawl blwyddyn gan gynnwys y daith gofiadwy i Oberammergau yn 2000. Roedd yn gyn bennaeth Ysgol Gynradd Radur. Cydymdeimlir â'i briod Barbara, Iwan a Bethan yn eu colled.

Cyfarchion

Roeddem yn falch iawn o weld Saran Williams yn ôl yn yr Ysgol Sul wedi cyfnod yn yr ysbyty. Pob dymuniad da i ti Saran, a hefyd i Mr. Bryan Jones, yntau wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Nid yw Mrs. Iola Glyn Jones wedi bod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar ac anfonwn ein cofion ati.

Grŵp Merched

Cynhaliwyd cyfarfod dan gadeiryddiaeth y Dr. Diana Evans gydag anerchiad hynod addysgiadol ar y testun 'Cholesterol Etifeddol' gan y Dr. Joan Williams. Bu'r wybodaeth drylwyr yn agoriad llygad ac yn berthnasol iawn i lawer ohonom. Diolchwyd yn gynnes iddi gan Miss Pat Lister.

Y Gorlan

Y Dr. Rebecca Jones, un o blant y Crwys, oedd y siaradwraig ddechrau Ionawr a chafwyd sgwrs ddiddorol am ei phrofiad o weithio fel ymgynghorydd anaesthetig mewn ysbyty Gristnogol ym Mangladesh. Erbyn hyn mae wedi dychwelyd i wirfoddoli am flwyddyn arall.

Y Gymdeithas

Cafwyd Gwasanaeth Dechrau Blwyddyn hynod nodedig o dan arweiniad y Dr. Diana Evans. Thema'r gwasanaeth hwn oedd

addunedau, gydag apêl ar i'r aelodau addunedu i gyfrannu'n llawnach i'r amrywiol agweddau o waith yr Eglwys, gan gynnwys cynnig syniadau newydd.

Y Gymdeithas Ddrama

Mae brwdfrydedd mawr wrth gychwyn ar yr ymarferion ar gyfer perfformio *Dan y Wenallt* oddeutu'r Pasg. Cyfarwyddir gan Mrs. Betsan Evans a diolch iddi am ei gwaith arbennig.

Eglwys Dewi Sant

Warden y Bobl

Etholwyd Eryl Fuge yn Warden y Bobl. Dymunwn bob bendith iddi wrth ymgymryd â`r gwaith.

Dymuniadau gorau

i Rhian Linecar, wrth iddi gychwyn ar gwrs yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf, er mwyn hyfforddi ar gyfer yr offeiriadaeth. Hoffem ddiolch iddi am ei hymroddiad i fywyd a gwaith yr eglwys yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cristingl

Cynhaliwyd gwasanaeth hyfryd y Cristingl ddechrau Ionawr er mwyn dathlu bod Crist yn oleuni`r byd. Plant yr Ysgol Sul oedd wedi addurno orennau`r Cristingl gan osod cannwyll yn y canol. Cafodd pob aelod o`r gynulleidfa Gristingl a bu pawb yn gorymdeithio dan ganu o fewn yr eglwys yng ngolau`r canhwyllau.

Banc Bwyd Caerdydd

Dosbarthwyd dros 2.5 tunnell o fwyd yng Nghaerdydd yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig ac mae`n bwysig ein bod yn cefnogi`r ymgyrch. Byddwn yn parhau i gasglu.

Penblwydd Priodas

Llongyfarchwn Barbara a John Morgan, a fu`n dathlu eu Priodas Aur ddiwedd mis Rhagfyr.

Llongyfarchiadau

i Arwel a Michelle Lewis ar enedigaeth merch fach, Mari Eirlys, ychydig cyn y Nadolig.

Eglwys Minny Street

Cydymdeimlo

Cofiwn yn ddiolchgar am Gwynfor Owen (Carno, ond gynt o Barc y Rhath) a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu. Cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am ei fywyd yng Nghaersws ar 25 Ionawr gyda'n Gweinidog yn gwasanaethu.

Priodas

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Aerona (Warrington) a John Esau yn dilyn eu priodas ar 12 Rhagfyr.

Y Gymdeithas

Cafwyd nosweithiau hynod o ddiddorol yn ystod misoedd Rhagfyr a Ionawr gan Carys Wheelan ar adfer Yr Ardd Feddyginiaethol yn y Bont Faen, dathlu'r Nadolig yng nghwmni Jean Salisbury ac Eirlys Eckley, a chlywed hanes gyrfaoedd Awen Iorwerth fel llawfeddyg a Nantlais Roberts-Jones fel peilot awyrennau. Hefyd fe ddathlwyd y Plygain yng nghapel Penrhiw yn Sain Ffagan.

Bydd wrth ein Bwrdd

Mwynhau bwyd, cwmni a thrafod ein cred. Ym mis Rhagfyr y testun oedd: "Mae rhai pobl yn mynd i eglwys neu gapel i brofi Duw yng nghwmni eraill. Beth yw eich barn ar hynny?" Ym mis Ionawr fe drafodwyd "Beth mae'n golygu i fyw bywyd sydd â gwerth a phwrpas iddo?" a chwestiynau heriol eraill.

Munudau i Feddwl

Roedd Munudau i Feddwl y Gweinidog yn amrywio o HIV-AIDS i Nelson Mandela, y Santeros yn Puerto Rico, y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, mewnfudwyr, daeargryn Haiti, cyffelybu'r nofel i'r Eglwys Gristnogol ac wedyn at yr Holocost. Cofiwch fod y myfyrdodau hyn i gyd ar ein gwefan – yn ogystal â Myfyrdod y Mis, "...ag Ati", a chrynodeb o holl bregethau'r Gweinidog.

Oedfaon

Ym mis Rhagfyr cafwyd tri chyflwyniad gwych o Ddrama'r Geni gan PIMS (Pobl Ifanc Minny Street), y plant a'r plantos. Hefyd fe gawsom Naw Llith a Charol. Y Gweinidog oedd yn pregethu yn ein hoedfa bore Nadolig ar y cyd gydag Eglwys y Crwys.

Ebeneser

Ymddeol

Gair nad yw Eira Jones yn ei adnabod go iawn yw 'ymddeol' oherwydd mae hi wastad yn y cefndir yn gweithio'n ddiflino ar ran yr eglwys, ond ar ddiwedd 2013, ar ôl blynyddoedd o wasanaeth di-flino, ymddeolodd Eira o dair dyletswydd benodol sef cymryd cofnodion y cwrdd diaconiaid, trefnu rota paratoi'r cymun a threfnu rota te nos Sul. Cafwyd cyfle i ddiolch iddi mewn gwasaneth bore a chyflwynwyd rhodd fechan fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i gwaith a'i gwasnaeth. Eira – diolch am eich holl waith.

Café de France

Llwyddwyd i godi oddeutu £400 tuag at Apêl Haiti yn y Café de France a gynhaliwyd yng nghartref Elwyn ac Annick Moseley. Diolch iddynt ac i Carys ac i bawb a gynorthwyodd ac a gefnogodd yr ymdrech.

Derbyn Aelodau

Braf oedd cael croesawu'n swyddogol Rhys a Laetitia Davies i'n plith ar 19 Ionawr, er ein bod wedi cael pleser eu cwmni nhw a'r plant ers ymhell dros flwyddyn. Daeth Daniel, brawd Rhys, yn aelod hefyd ac mae yntau a'r teulu wedi bod yn

DINESAIR – 139



Ar Draws

1. 'Fe drefnwyd ffordd yng nghyngor Tri yn Un
   I achub ----- ----- euog ddyn' (PJ)(5,7)
7. Aneirif lu yn dad-wneud direidi dechrau'r flwyddyn (8)
8. Y ffrwyth sy'n rhan o'r hafaliad (4)
9. A yw doli ddrwg yn gallu gwneud hyn? (4)
11. Drysu enaid tegan hudol (8)
12. 'Yng nghlwyfau'r Oen fu farw
    ----- ----- mae iachâd' (WW) (2,4)
14. Diana'n swnio'n nerthol a doniol (6)
16. Mae gwneud yn hysbys yn clwyfo ambell dro (8)
19. Cerdd anwadal ar yn ail (4)
21. 'Pam y caiff bwystfilod rheibus
    Dorri'r ---- mân i lawr?' (WW) (4)
22. Chwyldroi o gwmpas heb waith (8)
23. 'I etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a ----- ac yng nghadw yn y nefoedd i chwi' (1 Pedr) (12)

I Lawr

1. Tynnu allan o'r god fratiog (5)
2. Elw yn llonni, ie, yn wirion (7)
3. Canfod delw yn deilchion wedi dechrau'r gaeaf (5)
4. A yw lled loan yn drysu'r mynachesau? (7)
5. Darn i'r llwyfan mewn mydr a mawl (5)
6. Tôn y cais (9)
10. '----- ----- gwych y pren
    Sy â'i frigau uwch y nen
    Trig f'enaid byw' (MR) (3,6)
13. Efallai ganwyd hwn ar Chwefror 4ydd? (5)
15. Cist mewn gofid wedi'i amgylchynu (7)
17. Ffyrdd i'w codi'n ddynol (5)
18. Mewn ffedog o Fangor mae chwilio tan ddaear (5)
20. Y Ffraneg yn codi nod y llwyn (5)

Enillydd Croesair Rhif 137:
Eleri Sheppard, Penylan, Caerdydd

Atebion Croesair Rhif 137
Ar Draws
1. Magwrfa 5. Blawd 8.Lodes 9.Urddasol 10. Aeth dan ei fron 12. Andwyo 14. Egluro 17. Blaenasgellwr 21. Safadwy 22. Teitl 23. Ddigon 24. Neithiwr
I Lawr
1. Malu 2. Godre 3. Ras 4. Addurno 5. Buddai 6. Amserau 7. Dylunio 11. Dwy 12. A'i bysedd 13. Diarfog 15. Gwe 16. Esgyrn 18. Nodyn 19. Weini 20. Elor 22. Tai

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 7 Mawrth 2014

(**Ebeneser — parhad**) ymuno hefo ni, gyda'r ddau yn cymryd rhan ac arwain gweithgareddau gyda brwdfrydedd digamsyniol.

Cleifion

Y mae nifer o'n haelodau wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cofiwn yn arbennig at Freda Evans a Nancy Evans.

Gwefan y Dinesydd
www.dinesydd.com

Llongyfarchiadau

i Paul Grey Jones y baritôn gynt o Riwbeina ac yn fab i Mansel a Kathleen Jones, Rhiwbeina, a'r soprano, Catrin Aur ar ddod yn gyd-enillwyr gwobr Cantorion Cymdeithas Wagner yn Academi Frenhinol Llundain ar 1 Rhagfyr 2013. Mae Paul yn gynddisgybl yn Ysgol Glantaf ac yn 2009 enillodd Ruban Glas Ysgoloriaeth Tywyn Roberts yn Eisteddfod Dinbych.

Ar 25 Medi bydd **Ysgol Gymraeg Aberystwyth** yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 oed a bwriedir cyhoeddi llyfr i nodi'r garreg filltir bwysig hon. Gwahoddir darllenwyr y Dinesydd a fu yn yr ysgol i anfon eu hatgofion, eu storïau a'u lluniau at y pennaeth, Clive Williams, swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk neu at olygydd y llyfr meleriwynjames@gmail.co.uk erbyn diwedd mis Mawrth.

Calendr y Dinesydd

Chwefror - Mawrth

Mawrth, 11 Chwefror
Merched y Wawr Caerdydd. Bydd Sandra Rose yn sôn am enghreifftiau o'i gwaith cywrain ac yn eu harddangos, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Westminster Crescent, am 7.30pm. Manylion pellach: 029-2075-4379. Croeso cynnes.

Mawrth, 11 Chwefror
Cymdeithas y Tabernacl. Noson yng nghwmni Menna Machreth, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

Mawrth–Sadwrn, 11–15 Chwefror
Cwmni Richard Burton yn cyflwyno 'Fe Ddaw'r Byd i Ben' (Dafydd James) yn Theatr Sherman am 8.00pm bob nos ynghyd â pherfformiad brynhawn dydd Gwener am 2.00pm. Manylion pellach: 029-2064-6900.

Iau, 13 Chwefror
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Noson yng nghwmni Yr Athro Sioned Davies, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Manylion pellach: Sian Dowling (029-2075-3670).

Sadwrn, 15 Chwefror
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 i rai sydd am loywi eu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan Huw Pritchard ar y testun 'Fy Nghanu a'r Gair'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

Llun, 17 Chwefror
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson gerddorol yng nghwmni disgyblion Glantaf, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

Llun, 17 Chwefror
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan Dr Carwyn Jones (Prifysgol Fetropolitan Caerdydd) ar y testun, 'Chwarae Teg – Datblygiadau Gwyddonol ym Myd Chwaraeon', yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Mawrth, 18 Chwefror
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. 'Rhif yr Emyn.' Sgwrs gan yr Athro Gareth Ffowc Roberts, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

Mawrth, 18 Chwefror
Cymdeithas y Tabernacl. Noson yng nghwmni Huw Chiswell, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

Mercher, 19 Chwefror
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Fy Milltir Sgwar', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Mercher, 19 Chwefror
Cymdeithas y Gorlan. 'Rhai pobl gyffredin sydd wedi cael dylanwad ar ein bywydau ni.' Sgwrs gan J. E. Malcolm Thomas, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 2.15pm.

Mercher–Iau, 19–20 Chwefror
Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Blodeuwedd' (Saunders Lewis) yn Theatr Sherman am 7.30pm nos Fercher a nos Iau, a phrynhawn dydd Iau am 1.00pm. Manylion pellach: 029-2064-6900.

Gwener, 21 Chwefror
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'O Ddraintewion i'r Barri' – Cefndir Diwydiannol Teulu Davies Llandinam.' Sgwrs gan Dr David Jenkins, yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (sef Adeilad y Dyniaethau), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Croeso cynnes

Mawrth, 25 Chwefror
Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: 'Griffith John Williams ac Iolo Morganwg.' Darlith gan yr Athro Prys Morgan i gofio 50 mlwyddiant marw yr Athro G. J. Williams. Fe'i cynhelir yn Ystafell 1.69, Adeilad John Percival (sef Adeilad y Dyniaethau), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.15pm. Croeso cynnes i bawb.

Sadwrn, 1 Mawrth
Datganiad Organ gan Iestyn Evans (Llundain) yn y Tabernacl, Yr Ais, am 12.20pm. Mynediad am ddim, ond casgliad wrth y drws ar y diwedd.

Llun, 3 Mawrth
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Gŵyl Ddewi ac adloniant, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.00pm.

Llun, 3 Mawrth
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Prif Westai: Siôn Jobbins. Manylion pellach -Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

Mawrth, 4 Mawrth
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. Dathlu Gŵyl Ddewi dan ofal y Parch. Owain Llŷr Evans, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

Mawrth, 4 Mawrth
Cymdeithas y Tabernacl. Swper Gŵyl Ddewi, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Siaradwr gwadd: Rhys ab Owen.

Mercher, 5 Mawrth
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi, yn festri Capel Minny Street am 1.00pm. Gŵr gwadd: Jon Gower yn 'Adrodd Cyfrolau'.

Mercher, 5 Mawrth
Cymdeithas y Gorlan. 'U.N. a V.' Sgwrs gan Robin Griffith, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 2.15pm.

Mercher, 5 Mawrth
Merched y Wawr Cangen Bro Radur. Noson y Dysgwyr yng ngofal Shirley Williams yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

Gwener, 7 Mawrth
Clwb Gwawr Llygaid y Dydd. Dathlu gyda Dewi mewn bwyty yn y ddinas. Manylion pellach: clwbgwawr-caerdydd@hotmail.com

Sadwrn, 8 Mawrth
Cymdeithas Carnhuanawc. Ysgol Fore yn y Llyfrgell Ganolog ar yr Ais. Cofrestru am 9.45a.m. Tâl cofrestru: £7. Siaradwyr: Peter Lord, Gareth Miles, Hefin Mathias. Manylion pellach gan Alan Jobbins (029-2062-3275).

Mawrth, 11 Mawrth
Merched y Wawr Caerdydd. Cynhelir swper Gŵyl Ddewi yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Wesminster Crescent, am 7.30pm. Manylion pellach: 029-2075-4379.

Traed Moch i lawr yn y 'City'

(Parhad o dud. 16) Beth bynnag fydd tynged y tîm ar y cae mae'r siambls a welwyd yn codi cwestiynau sylfaenol am natur perchnogaeth clybiau pêl-droed (a rygbi hefyd.) Ydy hi'n gall neu'n gynaliadwy i ganiatau i un person berchnogi clwb a'i drin fel eiddo personol? Gall prif gyfranddalwyr clybiau fel Hull, Everton a Chaerdydd newid y lliwiau, bathodyn a rheolwr ar fympwy, ac wfft i 'r cefnogwyr.

Rwy'n edrych i lawr yr M4 ar glwb pêl-droed Abertawe gyda chenfigen. Mae Ymddireidolaeth y Cefngowyr yn berchen ar 20% o'r clwb ac mae un o'u cynrychiolwyr ar fwrdd y cyfarwyddwyr. Y ffans sy' biau 100% o glybiau Merthyr a Wrecsam. Perchnogion lleol yn buddsoddi'n gall ar gyfer yr hirdymor sydd eu hangen, nid dynion busnes sy'n prynu a gwerthu pobl a thraddodiad fel y mynnan nhw. Y ffordd orau i sicrhau hyn ydy drwy feithrin model o berchnogaeth gan y cefnogwyr. Breuddwyd ffŵl ym myd miliynau'r Uwch Gyngrhair? Efallai, ond mae esiamplau timau Cymru yn dangos y gall y model weithio. Dyn a ŵyr, allwn ni ddim cario 'mlaen fel hyn am lawer hirach!

Dwy fedal i seiclwr ifanc o Gaerdydd

Cyn y Nadolig buodd Owain Doull, 20 oed gynt o Lanisien, a chyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf, yn cystadlu mewn rasus seiclo ym Mecsico gan ennill medal efydd mewn un ras a medal aur mewn ras arall. Pob lwc iddo ym mhencampwriaeth seiclo'r byd yn hwyrach eleni.

Merch y Ddinas

Colofn Fwytai - Lowri Haf Cooke

Mae'n talu ar ei ganfed i adael i fwyty newydd anadlu, yn lle brysio yno'n syth wedi'r agoriad mawr. Ro'n i'n sicr ar fy ennill wrth aros dros fis i ymweld â *Duck Egg Bleu* yn Nhreganna, gan i mi brofi noson bur lwyddiannus yno ym mis Ionawr.

Dyma fenter uchelgeisiol Chef Gareth Dobbs o Benarth, sy'n anelu'n blwmp ac yn blaen am seren Michelin. Wedi cyfnod sylweddol o hyfforddiant yng ngheginau Pétrus a Le Gavroche, teithiodd y byd yn grwn cyn dychwelyd i Gymru i rannu ei awen. Mae'r enw'n gyfuniad o'i angerdd cogyddol am hwyaid â Manchester City!

Ar f'ymweliad cyntaf â'i fwyty cafwyd croeso cynnes iawn gan y mâitre'd,Chris Robbins o Aberteifi, sydd â phrofiad helaeth o lywio bwytai ledled y brifddinas. Dewiswyd ein seigiau - a'r gwin, sef potel o Rioja Vega Tempranillo (2011), llawn blasau mwyar duon - ar sail ei argymhellion ef, a brofodd yn sylfaen gadarn i noson fendigedig.

Cychwynwyd ein gwledd â brathiad bach amheuthun o *croquette* cranc a tsili ar lechen, cyn y profwyd saig gyntaf sydd yn ffefryn gyda'r Chef; 'ham, ŵy, pys a sglods', wedi'i weini yn null chwaethus *'Duck Egg Bleu'.* Welais i erioed y fath beth mewn bwyty yn ninas Caerdydd, haenau hynod o liwiau - a blasau - gwrthgyferbyniol, ddygodd ddelwedd o dreiffl dramatig i'r meddwl yn syth. Cyfatebwyd sylfaen o fochau mochyn sawrus â melyster y pys jelïaidd, islaw y 'sowldiwrs' *pain perdu* ac ŵy wedi'i botsio.

Dilynwyd hynny gan brif gwrs arbennig iawn yr Hwyaden Gressingham, oedd yn dyst i ddyfeisgarwch y Chef. Cyflwynwyd ar blât ŵy sgots bach moethus - ŵy sofliar mewn pelen o gig perlysieuog a grewyd o *confit* coesau'r hwyaden - ar y cyd â brest llawn blas, a fuddiodd yn bendant o gael ei thorri'n groes i'r graen. Ysgafnhawyd flasau cryfion yr aderyn gan dri math gwahanol o banas, gafodd eu gweini ar ffurf creision, saws a haenau *Boulangère*.

Gorffenwyd ein pryd â'r pwdin gorau i mi'i brofi ers amser maith – Panna Cotta nefolaidd unodd flasau lemwn a chardamom mewn glân briodas. "Arbrofol a chwareus" oedd dyfarniad fy nghydymaith ar y noson, a blesiwyd yn fawr gan weledigaeth Gareth Dobbs. Fe'm gadawyd innau o'r farn fod yma feistr ar waith, ac edrychaf ymlaen yn fawr i ddychwelyd yn fuan.

Y mae trigolion Treganna yn sicr ar eu hennill.

Duck Egg Bleu, 435 Cowbridge Road East, Treganna CF5 1JH
(029 2022 0993)

Canllaw Bach Caerdydd gan Lowri Haf Cooke, £9.99 (Gwasg Gomer)

Cymdeithas Carnhuanawc 2014

Blwyddyn newydd arall ac mae rhaglen Cymdeithas Carnhuanawc am 2014 wedi'i threfnu. Fel arfer bydd nifer o deithiau, helfa drysor, darlith yn yr Eisteddfod a chinio; ond y digwyddiad cyntaf fydd yr Ysgol Fore ddydd Sadwrn, Mawrth yr 8fed yn y Llyfrgell Ganolog (Cofrestru am 9.45 a.m.) Bydd Peter Lord yn siarad am 'Ymateb arlunwyr i argyfwng y dirwasgiad 1920-1939'; Gareth Miles yn trafod 'T.Rowland Hughes – Y dewraf o'n hawduron', a Hefin Mathias yn sôn am 'David Davies, Llandinam (1880 - 1944) a'r mudiad heddwch yng Nghymru'.

Croeso i unrhyw un ymuno â ni am fore diddorol a chwmni difyr am bris rhesymol (£7). (www.carnhuanawc.org)

CHWARAEON

Traed moch lawr y 'City' - unwaith eto

Sylwadau Tim Hartley,Cadeirydd y Clwb Cefnogwyr

Anghofiwch am drafferthion y bois rygbi, os y'ch chi moyn ffrae deuluol go iawn dewch lawr y 'City' lle mae tymor cyntaf yr Adar Gleision yn yr Uwch Gyngrhair wedi cynnig tipyn o sioe. Cafwyd bud-dugoliaethau campus yn erbyn Man City, Fulham ac Abertawe ond yn dilyn perfformiadau truenus y Nadolig a'r flwyddyn newydd wele dîm y brifddi-nas ar waelod y tabl.

Oddi ar y cae cawsom banto tymhorol hefyd gyda'n perchennog o bell, Vincent Tan, yn hawlio'r penawdau. Wrth i'r anniddigrwydd am newid crysau'r tîm i goch a thranc ein hannwyl Aderyn Glas rygnu ymlaen, fe benderfynodd Tan bod angen dangos i'r rheolwr Malky Mackay pwy oedd y bos. Cyhuddwyd y Sgotyn poblogaidd o orwario ar drosgwlyddiadau. O'r herwydd, ni fyddai'n cael yr un ddime goch i wario ym mis Ionawr a dwedwyd wrtho i ymddiswyddo neu wynebu'r sac. A hynny a fu. Yn fuan wedyn cy-hoeddwyd bod y clwb mewn dyled o £118 miliwn. Y rhan fwyaf yn daladwy i, ie dyna fe, Mr Tan.

Ond o'r gornel goch wele ein hiachawdwr, Ole Gunnar Solskjær, cyn chwaraewr Man U yn dychwelyd o Norwy i fod yn rheolwr newydd Caerdydd. Eisoes arwyddwyd dau neu dri o chwaraewyr cyffrous. O waelod y tabl dim ond un ffordd sydd i fynd nagefe? Cawn weld. *(Parhad ar dud. 14.)*

Tim Hartley, Cadeirydd y Clwb Cefnogwyr a'r Arglwydd Kinnock ar achlysur dathlu dyrchafiad yr Adar Gleision i'r Uwch Gynghrair ddiwedd y tymor diwetha. Yn y llun hefyd mae Vincent Tan, perchennog y Clwb, a Stephen Dought, AS De Caerdydd a Phenarth.

CRICC yn chwarae ar Barc yr Arfau

Doeth oedd achub mantais ar y cyfle i CRICC chwarae ar Barc yr Arfau ar ddiwrnod gwlyb y 5ed o Ionawr. Methwyd chwarae ar y rhan fwyaf o feysydd ardal Caerdydd oherwydd eu cyflwr ond llwyddodd Dan 11 a Dan 8 herio Llandaf ar y cae-pob- tywydd.

Enillodd Dan 11 mewn gêm agos, werth ei gwylio, a sgoriwyd ceisiau gan Joshua Atkin-son, Oliver Meek, Cai Jemmett a Rhodri Tho-mas.

Colli dros 9 gêm wahanol wnaeth Dan 8 ond roedd y garfan o tua 35 o blant CRICC wedi mwynhau`r profiad o chwarae ar gae mor adnabyddus.

Wythnos yn ddiweddarach, enillwyd gêm o 12 pwynt i 5 yng Nghwpan y Gleision gan dîm Dan 13 CRICC, i ffwrdd yn Ynysybwl. Pob lwc iddynt yn y rownd nesaf.

Mae Cwins Caerdydd ar frig Cynghrair 3 y De Ddwyrain ac yng Nghynghrair 4 mae Cymry Caerdydd yn ail i St. Josephs.

Tîm dan 11 CRICC v Llandaf - Parc yr Arfau